YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE
CYLCHLYTHYR MAWRTH 9fed / *MARCH 9th NEWSLETTER*

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
https://twitter.com/YGGPontardawe

Annwyl rieni a gofalwyr / *Dear Parents and Carers*

Eto, gair enfawr o ddiolch yn gyntaf i chi am eich cydweithrediad gyda'r dysgu o adref a'r newidiadau amrywiol – rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth. Rydych i gyd mae'n siŵr wedi clywed y newyddion da y caniateir i ddisgyblion cyfnod allweddol dau ddychwelyd i'r ysgol o ddydd Llun 15fed o Fawrth. Edrychwn ymlaen at eu croesawi yn ôl atom. I geisio cadw'r drefn mor syml â phosib, byddwn yn dychwelyd i'r union drefniadau oedd yn bodoli cyn y Nadolig. Byddwn yn parhau gyda'r amseroedd gollwng a chasglu gwahanol isod. Gofynnwn yn garedig i chi **beidio** cyrraedd y maes parcio cyn yr amseroedd gollwng a chasglu, i wisgo mwgwd yn y maes parcio a pharhau i gynnal pellter cymdeithasol o 2m o hyd. Rydych wedi bod yn wych dros y flwyddyn diwethaf. Diolch.

*Again, a huge word of thank you for your co-operation with the home learning and various changes – we really appreciate your support. You will have all heard the good news that key stage two pupils will be allowed to return to school on Monday 15th March. We look forward to welcoming them back. To keep arrangements as simple as possible, we will return to the exact arrangements that existed prior to Christmas. We will continue with the staggered arrival and collection times below. Please **do not** arrive before the drop off and collection times, please wear a face mask at all times in the car park and maintain social distancing of 2m at all times. You have all been outstanding throughout the last year. Thank you.*

Trefniadau Gollwng a Chasglu / *Drop off and Collection times*

Dosbarthiadau / *Classes*	**Amser Gollwng / *Drop off slot***	**Amser Casglu / *Collection slot***
Mr Owen (B6) a Mr Lewis (B5)	8:30 - 8:40am	2:40 - 2:50pm
Mrs Hogarth (B3), Mrs Richards / Mrs A Shields (B3&4) a Miss M Davies (B4)	8:40 - 8:50am	2:50 - 3:00pm
Miss Lewis (B2), Mrs Saunders (B1&2) a Miss Stephanie Davies (B1)	8:50 - 9:00am	3:00 - 3:10pm
Mrs Jones Fowler (D&B1), Mrs Jones / Mrs Morgan (Derbyn)	9:00 - 9:10am	3:10 - 3:20pm
Mrs Laura Evans (Meithin Bore / *Morning Nursery*)	9:10 - 9:20am	11:20 - 11:30am
Mrs Laura Evans (Meithin Prynhawn / *Afternoon Nursery*)	12:15 - 12:25pm	2:25 - 2:35pm

Cinio Ysgol / *School Dinners*
Bydd cinio twym ar gael yn dilyn yr un drefn y chyn y Nadolig. Y gost yw £2.35 y dydd (£11.75 yr wythnos). Dim ond drwy ParentPay y gallwn dderbyn taliadau ar hyn o bryd. Peidiwch danfon arian parod i'r ysgol os gwelwch yn dda. Mae hefyd angen talu erbyn y dydd Gwener blaenorol. Mae'r fwydlen ddyddiol ar gael trwy glicio Bwydlen Ysgol.

Hot dinners will be available following the same order as before Christmas. The cost is £2.35 per day (£ 11.75 per week). We can currently only accept payments through ParentPay. Please do not send cash to school. Payment is also required by the previous Friday. The daily menu is available by clicking School Menu.

Clwb Brecwast / *Breakfast Club*
Yn anffodus, ni allwn gynnig dyddiad ar gyfer ail gychwyn y clwb brecwast. Pan fyddwn yn barod i ail gychwyn, fe'ch hysbyswn.
Unfortunately, we cannot offer a date for the restart of the breakfast club. When we are ready to restart, we will inform you.

Clybiau ôl ysgol / *After school clubs*
Yn yr un modd, gan na allwn gymysgu disgyblion, ar hyn o bryd ni allwn gynnig clybiau ôl ysgol ar hyn o bryd.
Again, as we cannot mix pupils, we cannot currently offer after school clubs.

Bysus / *School Transport*
Mae trafnidiaeth ysgol (bysus) yn rhedeg fel arfer. Mae trefniadau yn eu lle i dderbyn disgyblion sy'n cyrraedd yr ysgol ar fws. Efallai fod amser casglu a gollwng wedi'i effeithio ychydig. Gwiriwch gyda'r cwmni bws.
School transport (buses) is running normally and arrangements are in place to admit pupils arriving at school by bus. Collection and drop off times may have been slightly affected. Please check with the bus company.

Pwysig – Protocol Covid-19 / *Important – Covid-19 Protocol*

Os yw disgybl yn **derbyn canlyniad prawf positif** gofynnwn i rieni ddefnyddio'r protocol isod os gwelwch yn dda. E-bostiwch yr ysgol gyda'r canlynol (yggpontardawe@npt.school)

Pwnc : "Pwysig – Covid"
Neges : "Cysylltwch â mi ar y rhif canlynol ..."

Peidiwch gynnwys unrhyw wybodaeth arall ac fe gysylltwn â chi cyn gynted ag y bo modd.

*In the event of a **pupil testing positive** for Covid-19, please email the school with the following (yggpontardawe@npt.school)*

Subject: "Important - Covid"
Message: "Contact me on the following number ..."

Please do not include any other information and we will contact you as soon as we can.

Symptomau Covid-19 / *Covid-19 Symptoms*
Cofiwch bwysigrwydd fod rhieni yn gwirio nad yw eu plant yn dangos unrhyw symptomau cyn mynychu - tymheredd uchel, pyliau peswch cyson newydd a cholled neu newid i arogl neu flas. Os ydynt yn arddangos y symptomau yma, **ni ddylent fod yn yr ysgol ar unrhyw gyfrif a dylid trefnu prawf.** Yn yr un modd, os yw rhieni'n dangos symptomau ac yn debygol o fod yn trefnu prawf, peidiwch danfon y plant i'r ysgol.
*Remember the importance of parents checking that their children are not showing any symptoms before attending - high temperature, constant new coughs and loss or a change in smell or taste. If they exhibit these symptoms, **they should not be in school under any circumstances and a test should be arranged**. Likewise, if parents are showing symptoms and are likely to be subject to testing, please do send pupils to school.*

HMS a Gwyliau / *INSET and Holiday Dates*
Mae'r diwrnodau HMS sydd eisoes wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf isod. Mae dau ddiwrnod HMS pellach i'w trefnu cyn yr Haf. Fe rown gymaint o rybudd a phosib i chwi wedi trefnu'r rhain. Mae nifer o rieni wedi cysylltu â ni i ofyn am ddyddiadau'r tymor nesaf. Rydym wedi cynnwys cymaint ag y gallwn yn y dyddiadur. Cofiwch fod y wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan CNPT. Rydym hefyd wedi clustnodi diwrnodau ar gyfer trosglwyddo a chwaraeon. Yn naturiol, bydd y rhain yn lwyr ddibynnol ar reoliadau Covid-19. Yn yr un modd, rydym yn ansicr iawn a fydd yn bosib cynnal unrhyw ymweliadau preswyl cyn diwedd y flwyddyn academaidd.
INSET days already planned for the next academic year are listed below. There are two remaining INSET days yet to organise prior to the summer. We will provide as much notice as possible when they are organised. A number of parents have contacted us asking for any dates next term. We have included as much as we can in the diary. Remember that term dates and INSET information is also available on the NPT

website. We have earmarked days for transition and sports. Naturally, these will be dependent on Covid-19 regulations. Likewise, we are unsure whether we will be able to undertake any residential visits before the end of the academic year.

Dydd Gwener, Gorffennaf 16eg 2021 / *Friday, July 16th 2021*

Grant Mynediad GDD / *PDG Access Grant*

Mae'r AALl wedi gofyn i ysgolion atgoffa rhieni bod Grant Mynediad GDD LlCC (Grant dillad ysgol) bellach wedi'i ymestyn i gynnwys grwpiau blwyddyn eraill a'r meini prawf wedi'u hymestyn i gynnwys gliniaduron neu dabledi. Mae cyllid o hyd at £ 125 ar gael ar gyfer pob dysgwr cymwys a £200 ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7, gan gydnabod y costau uwch sy'n gysylltiedig â dechrau ysgol uwchradd. Gall mwyafrif y dysgwyr sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim wneud cais am y grant hwn os ydynt:

- Yn y dosbarth derbyn yn yr ysgol gynradd (Medi 2020)
- Ymuno â blynyddoedd ysgol 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 ac 11 (Medi 2020)
- Mewn ysgol arbennig, mewn uned anghenion arbennig neu uned gyfeirio disgyblion ac yn 4, 5, 7, 9, 11, 12, 13, 14 neu 15 mlwydd oed
- Mae cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar gael ym mhob blwyddyn ysgol.

Mae mwy o wybodaeth ar gael a gall rhieni wneud cais ar-lein wrth ddilyn y linc i https://www.npt.gov.uk/1316?lang=cy-gb. Y dyddiad cau ar gyfer blwyddyn academaidd 20/21 yw Mehefin 30ain 2021.

The LEA has asked us to remind parents that the WG PDG Access Grant (School clothing Grant) has now been extended to include new year groups and the criteria extended to include laptops or tablets. Funding of up to £125 is available for each eligible learner and £200 for Year 7 learners, recognising the increased costs associated with starting secondary school. Most learners eligible for free school meals can apply for this grant if they have:

- *Entered reception class in primary school (September 2020)*
- *Entered school years 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 and 11 (September 2020)*
- *In a special school, special needs resource base or pupil referral unit and are aged 4, 5, 7, 9, 11, 12, 13, 14 or 15*
- *Funding for looked-after children is available in every school year.*

More information is available and parents can apply online at https://www.npt.gov.uk/1316*. The closing date for the 20/21 academic year is 30th June 2021*

Tir ysgol di-fwg / *Smoke free grounds*

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ysgolion atgoffa pob rhiant, gofalwr ac ymwelydd i'r ysgol y bydd tir ysgolion yn ddi-fwg Fawrth 1af 2021. Bydd hyn yn golygu y bydd ysmygu yn drosedd ac y gallai unrhyw un sy'n cael ei weld yn torri'r gyfraith wynebu dirwy o £100. Bydd y deddfau newydd hefyd yn gwneud meysydd chwarae cyhoeddus, yn ogystal â lleoliadau awyr agored gofal dydd a gwarchod plant a thir ysbytai, yn ddi-fwg. Mae'r Llywodraeth am amddiffyn pawb rhag mwg ail-law niweidiol. Bydd gwahardd ysmygu mewn lleoedd fel tir ysgolion yn dad-normaleiddio ysmygu ac yn lleihau'r siawns y bydd plant a phobl ifanc yn dechrau ysmygu yn y lle cyntaf – gan arbed bywydau yn y pen draw. Gofynnir i bawb chwarae eu rhan wrth adeiladu dyfodol iachach. Gall y rheini sy'n chwilio am help i roi'r gorau i ysmygu gyrchu gwasanaeth cymorth GIG Cymru am ddim, Helpa Fi i Stopio, ar 0800 085 2219 neu ddilyn y linc i www.helpafiistopio.cymru am help a chymorth, gan gynnwys mynediad at feddyginiaeth am ddim i roi'r gorau i ysmygu.

The Welsh Government has asked schools to remind all parents, carers and visitors to our school that from 1st March 2021, school grounds will be smoke-free. This will mean that it will be against the law to smoke on school sites and anyone found breaking the law could face a £100 fine. The new laws will also make public playgrounds, as well as outdoor day-care and child-minding settings and hospital grounds smoke-free.

The Government want to protect everyone from harmful second-hand smoke. Banning smoking in places like school grounds will de-normalise smoking and reduce the chances of children and young people starting smoking in the first place – ultimately saving lives.

They ask for your support to ensure we all play our part in building a healthier future. Those looking for help to stop smoking can access Wales' free NHS support service Help Me Quit on 0800 085 2219 or visit www.helpmequit.wales for help and support, including access to free stop smoking medication.

Diolch unwaith eto i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth barhaus. Er bod y newyddion yn galonogol tu hwnt, mae'n parhau yn amser anhygoel o anodd i bawb. Os ydych chi ein hangen ni, cysylltwch trwy e-bost yn yggpontardawe@npt.school.

I can once again thank you all for your continued support and understanding. Although the news is is extremely encouraging very, it continues to be an incredibly difficult time for everyone. If you need us, please contact by email at yggpontardawe@npt.school.

Cadwch yn saff / *Stay safe*

Ceri Emanuel

Pennaeth **/** *Headteacher*
09.03.21

Dyddiadur 2020 - 2021 / *2020 - 2021 Diary*

Dydd Llun, Mawrth 15fed *Monday, March 15th*	Holl ddisgyblion CA2 yn dychwelyd i'r ysgol *All KS2 pupils returning to school*
Gwylau Pasg – Cau i ddisgyblion dydd Gwener, Mawrth 26ain ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 12fed ***Easter Holidays** – School closes to pupils on Friday, March 26th and will re-open on Monday, April 12th*	
Dydd Iau, Mai 27ain *Thursday, May 27th*	Mabolgampau Ysgol – os yn bosib *School Sports Day – if possible*
Hanner Tymor Sulgwyn – Mai 31ain i Fehefin 4ydd ***Half Term Whitsun** – May 31st to June 4th*	
Dydd Iau, Mehefin 17eg *Thursday, June 17th*	Diwrnod agored B6 yn Ysgol Gyfun Ystalyfera *Y6 Open Day in Ysgol Gyfun Ystalyfera*
Mawrth i Iau, Mehefin 22ain i'r 24ain *Tuesday to Thursday, June 22nd to 24th*	Diwrnodau Sgiliau B5 yn Ysgol Gyfun Ystalyfera *Y5 Skills Days in Ysgol Gyfun Ystalyfera*
Dydd Gwener, Gorffennaf 2ail *Friday, July 2nd*	Mabolgampau Clwstwr yn YG Ystalyfera (Tîm B3 – B6) *Cluster Sports at YG Ystalyfera (Y3 – Y6 Team)*
Dydd Gwener, Gorffennaf 9fed *Friday, July 9th*	B6 – Gig Siarter Iaith yn YG Ystalyfera *Y6 – Language Charter Gig at YG Ystalyfera*
Dydd Gwener, Gorffennaf 16eg *Friday, July 16th*	HMS *INSET*
Gwylau'r Haf – Cau i ddisgyblion dydd Iau, Gorffennaf 15fed ac yn ail agor ar ddydd Gwener, Medi'r 3ydd ***Summer Holidays** – School closes to pupils on Thursday, July 15th and re-opens on Friday, September 3rd*	
Dydd Iau, Medi'r 2ail *Thursday, September 2nd*	HMS *INSET*